# Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg

## Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## 1 Awst 2018 i 31 Gorffennaf 2019

## DRAFFT

## CYFLWYNIAD

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi bod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ers 1 Ebrill 2018. Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar y cyfnod rhwng 1 Awst 2018 a diwedd blwyddyn ariannol y sefydliad, 31 Gorffennaf 2019.

Ers i Safonau'r Gymraeg ddod i rym, mae'r Brifysgol wedi datblygu sawl gweithdrefn newydd ac wedi cynnig hyfforddiant i staff er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Safonau. Mae llawer o'r gweithdrefnau hyn wedi parhau, yn eu hanfod, o'r rhai a weithredwyd fel rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Brifysgol wedi ceisio adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd er mwyn paratoi ar gyfer gosod Safonau'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i graffu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Defnyddio’r Gymraeg, Pwyllgor Cynllunio Strategol a Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol.

**Cyfleu Gofynion Safonau'r Gymraeg**

Cynigiwyd hyfforddiant i staff o bob rhan o'r Brifysgol i egluro cefndir statudol y Safonau a'r camau a gymerwyd i gyrraedd cydymffurfiaeth. Yn ogystal, fel rhan o'r ymarferion monitro mewnol, mae’r Uned Gymraeg wedi cyfarfod ag adrannau ar draws y Brifysgol i gyfathrebu gofynion y Safonau ac amlinellu unrhyw feysydd i'w datblygu.

Diweddarwyd Adran yr Uned Gymraeg o wefan allanol y Brifysgol i gynnwys tudalennau penodol ar y Safonau Cymraeg, Cwestiynau Cyffredin a sawl canllaw ar:

- Ateb y ffôn
- Gohebiaeth
- Llofnodion e-bost
- Cyfarfodydd (y cyhoedd a myfyrwyr)
- Cadeirio Cyfarfodydd Dwyieithog
- Digwyddiadau Cyhoeddus/Darlithoedd a Seremonïau Graddio/Dyfarnu
- Penderfyniadau Polisi
- Y Cyfryngau Cymdeithasol
- Contractau a Thendrau
- Grantiau a Chymorth Ariannol

Yn ystod y broses o gyflwyno'r Safonau ar draws y Brifysgol, daeth yn amlwg bod angen diwygio'r canllawiau er mwyn rhoi mwy o eglurder lle bo angen neu ychwanegu enghreifftiau perthnasol. O ganlyniad, er bod y canllawiau hyn wedi'u cyhoeddi ar y wefan a bod copïau papur yn cael eu dosbarthu mewn cyflwyniadau ac wrth gynghori unigolion, maent yn ddogfennau byw sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd.

**Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

Gohebiaeth Ysgrifenedig (Safonau 1 – 7)

Mae'r Brifysgol yn cychwyn pob gohebiaeth yn ddwyieithog oni bai bod dewis iaith y derbynnydd yn hysbys. Mae'r Brifysgol yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ac ychwanegwyd y cymal canlynol at holl ohebiaeth swyddogol y Brifysgol ac at bob e-bost a anfonwyd gan unedau ac ysgolion.

***Mae Met Caerdydd yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.***

Cyfathrebu dros y Ffôn (Safonau 8 – 21)

Mae'r staff sy'n gweithio ar brif linellau ffôn y Brifysgol yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog a lluniwyd a dosbarthwyd cyfarwyddiadau i'r staff ar y Prif Switsfyrddau a'r llinell Gwasanaethau Gwybodaeth. Mae canllaw cyffredinol ar sut i ddelio â galwadau a wneir yn Gymraeg ar gael ar ein gwefan.

Rhoddwyd hyfforddiant i staff ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog a sut i ddelio ag ymholiadau ffôn Cymraeg.

Cyfarfodydd (Safonau 24 – 34)

Mae'r Uned Gymraeg yn cefnogi unrhyw wasanaeth proffesiynol neu ysgol academaidd wrth drefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer unrhyw gyfarfodydd lle defnyddir y Gymraeg gan unrhyw gyfranogwr/cyfranogwyr gwadd.

Digwyddiadau Cyhoeddus (Safonau 35 – 38)

Er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu deunydd cyhoeddusrwydd at ddefnydd y cyhoedd, trafodwyd y Safonau hyn gyda thîm digwyddiadau'r Brifysgol, a chynhyrchir unrhyw ddeunyddiau a gynhyrchir ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog.

## Darlithoedd Cyhoeddus (Safonau 40 – 40A)

Mae Tîm Digwyddiadau'r Brifysgol yn gyfrifol am y cyhoeddusrwydd ar gyfer darlithoedd cyhoeddus ac maent yn ymwybodol o ofynion safonau'r Gymraeg. Mae'r Uned Gymraeg hefyd wedi darparu hyfforddiant ychwanegol i aelodau'r Tîm Digwyddiadau.

## Seremonïau Graddio (Safonau 41 – 42)

Mae'r wybodaeth am drefniadau seremonïau graddio'r Brifysgol yn ddwyieithog. Gofynnir i unrhyw siaradwr anrhydeddus yn y seremoni a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg.

## Cyhoeddiadau (Safonau 43 – 52)

Sefydlwyd gweithdrefnau ers tro i sicrhau bod unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd neu fyfyrwyr yn cael ei chynhyrchu'n ddwyieithog, ac na fyddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran maint, ansawdd a chywirdeb. Mae'r gweithdrefnau hyn yn parhau i gael eu cymhwyso gan staff wrth ddrafftio unrhyw gyhoeddiadau.

## Ffurflenni (Safonau 53 – 54)

Mae'r staff yn ymwybodol y dylid cynhyrchu pob ffurflen at ddefnydd myfyrwyr a'r cyhoedd, ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau esboniadol, yn ddwyieithog. Os cynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ein harfer yw anfon y ffurflenni yn dewis iaith y myfyriwr neu'r aelod o'r cyhoedd.

## Y Wefan (Safonau 55 – 59)

Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn gweithio ar ddatblygu gwefan gwbl ddwyieithog er mwyn cydymffurfio â'r Safonau hyn erbyn 1 Hydref 2019.

Mae holl olygyddion y we ar draws y Brifysgol wedi cael gwybod, wrth ddiweddaru tudalen we, neu wrth greu un newydd, y dylai fod yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Meddalwedd Gwirio Sillafu a Gramadeg (Safon 60)

Mae'r meddalwedd Cysgliad ar gael i bob myfyriwr ar gyfrifiaduron gweithfannau cyhoeddus. Mae'r un meddalwedd ar gael i staff ar alw i osod ar eu cyfrifiaduron swyddfa ac ar liniaduron sy'n cael eu defnyddio at ddibenion gwaith.

## Apiau (Safon 61)

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn gweithio i sicrhau y bydd yr apiau perthnasol yn ddwyieithog erbyn 1$^{af}$ Hydref 2019.

## Cyfyngau Cymdeithasol (Safonau 62 - 63)

Mae'r Brifysgol wedi dynodi cyfrifon adrannol neu gorfforaethol ar gyfer pob Ysgol a gwasanaeth proffesiynol. Mae'r cyfrifon hyn yn gweithredu'n ddwyieithog.

## Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 64)

Mae pob peiriant hunanwasanaeth, gan gynnwys peiriannau hunanwasanaeth llyfrgell a pheiriannau parcio ar y safle ar draws y ddau gampws Prifysgol, yn gweithredu'n ddwyieithog.

## Arwyddion (Safonau 65 - 67)

Mae pob arwydd yn ymddangos yn ddwyieithog. Cynhyrchir unrhyw arwyddion newydd, neu rai sy'n cael eu hadnewyddu, gyda'r testun Cymraeg wedi'i leoli fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf – h.y. i'r chwith neu uwchben y testun Saesneg.

## Derbynfeydd (Safonau 68 - 72)

Mae yna arwydd ym mhob derbynfa sy'n agored i'r cyhoedd yn hysbysu’r ffaith bod modd derbyn gwasanaeth Cymraeg ar ein derbynfeydd, ac mae'r staff dwyieithog sy'n gweithio yno yn gwisgo bathodyn i ddangos hyn.

## Hysbysiadau (Safonau 73 - 74)

Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu pob hysbysiad yn ddwyieithog.

## Grantiau (Safonau 75 - 79)

Mae pob dogfen sy'n ymwneud â grantiau neu geisiadau cymorth ariannol ar gael yn Gymraeg.

## Contractau a ddyfarnwyd i drydydd parti (Safonau 73 - 74)

Ar ôl ymgynghori â'r swyddfa caffael lluniwyd canllawiau ar gyfer tendro a chontractau trydydd parti sy'n egluro bod gan gynigwyr yr hawl i gyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg a chael eu cyfweld yn Gymraeg. Dosbarthwyd y canllaw i staff sy'n gweithio gyda chaffael ac mae hefyd ar ein gwefan.

## Hysbysebu a Hybu (Safonau 85 - 86)

Cynhyrchir yr holl gyhoeddusrwydd a'r dogfennau a gynhyrchwn i hysbysebu ein gwasanaethau yn ddwyieithog.

## Hunaniaeth Gorfforaethol (Safonau 87)

Mae hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yn gwbl ddwyieithog.

## Cyfleoedd Dysgu (Safonau 88 - 89)

O ran y cyfleoedd dysgu sy'n agored i'r cyhoedd ac nad ydynt yn rhan o gwrs neu a fydd yn arwain at berfformiad, gallwn gyfeirio at y sesiynau a ddarperir gan Ysgol Gelf Agored Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn casglu data ar ddewisiadau mynychwyr y dosbarth o ran iaith yr ystafell ddosbarth er mwyn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Asesiadau (Safonau 90- 90A)

Mae myfyrwyr y Brifysgol wedi gallu cyflwyno asesiadau yn y Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg ers sawl blwyddyn a sefydlwyd gweithdrefnau cadarn i hwyluso hyn. Mae'r rhain yn cynnwys penodi tiwtor cyfrwng Cymraeg o fewn yr un adran i farcio'r gwaith ac os nad yw hyn yn bosibl cyfieithir yr asesiad i'r Saesneg cyn cael ei farcio. Mae'r uned gyfieithu yn gyfarwydd iawn â chyfieithu asesiadau academaidd. Mae papurau arholiad cyfrwng Saesneg hefyd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg i alluogi myfyrwyr i sefyll yr arholiad yn Gymraeg os dymunant. Gwneir hyn yn unol â'r gofynion a ragnodir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Dogfen

iadau Cyhoeddus (Safon 91)

Nid yw'r Brifysgol yn gweithredu system annerch gyhoeddus.

Llety Myfyrwyr (Safonau 92 - 92A)

Mae tîm llety'r Brifysgol yn rhoi'r dewis i fyfyrwyr o fyw gyda myfyrwyr Cymraeg eraill. Cynigir hyn fel rhan o'r broses o ymgeisio am Neuaddau Preswyl.

Tiwtor Personol (Safon 93)

Mae'r Brifysgol yn dyrannu tiwtoriaid personol Cymraeg i bob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg yn ddiofyn. Os nad oes modd dyrannu tiwtor o'r ysgol academaidd berthnasol, yna darperir tiwtor o ysgol arall.

## **Safonau Llunio Polisi**

Penderfyniadau Polisi (Safonau 94 - 96)

Mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i asesu canlyniadau ieithyddol polisïau a mentrau newydd gyda'r bwriad o hwyluso'r Gymraeg lle bo modd.

Cynhelir asesiad effaith polisïau a mentrau newydd gan is-grŵp Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Met Caerdydd a’i gadarnhau gan y Pwyllgor ei hun. Mae Pennaeth yr Uned Gymraeg yn craffu ar bob asesiad effaith fel aelod o'r is-grŵp a'r Pwyllgor.

Er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn elfen ganolog o unrhyw waith datblygu polisi, mae wedi cael ei chynnwys ynghyd â'r naw nodwedd warchodedig a nodwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn sicrhau yr ystyrir unrhyw effaith ar y Gymraeg ar draws y sefydliad.

Ymgynghori (Safonau 97 - 99)

Yn ystod prosesau ymgynghori ar benderfyniadau polisi mae'r Brifysgol yn ceisio barn am yr effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar yr iaith Gymraeg. Gwneir hyn drwy gynnwys cwestiwn penodol am y Gymraeg, ynghyd â chwestiynau eraill, yn y ddogfen ymgynghori, neu drwy ofyn cwestiwn ar lafar mewn cyfarfod ymgynghori ag unigolyn.

Dyfarnu Grantiau (Safon 100)

Ar ôl ystyried i ba raddau y mae'r Brifysgol yn dyfarnu grantiau, ac ar ôl ymgynghori gyda Chomisiynydd y Gymraeg, penderfynwyd nad yw'r Brifysgol ar hyn o bryd yn cyflawni camau perthnasol i ofyn am bolisi ar gyfer yr elfen hon.

Comisiynu Ymchwil (Safonau 101 - 103)

Ni wnaeth y Brifysgol gomisiynu unrhyw ymchwil i helpu gyda phenderfyniad polisi yn ystod y cyfnod adrodd, ond y bwriad yw defnyddio'r asesiad effaith ar gyfer hyn (lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn briodol).

Cyrsiau Academaidd (Safon 104)

Mae ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth ddatblygu neu dynnu'n ôl cyrsiau gradd eisoes yn weithdrefn sefydledig o fewn y Brifysgol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Dirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb dros y Gymraeg oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**<u>Safonau Gweithredu</u>**

Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol yn y Sefydliad (Safon 105)

Mae’r Uned Gymraeg yn y broses o ddrafftio dogfen bolisi yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn Met Caerdydd. Bydd y polisi'n cael ei graffu cyn i'r pwyllgorau priodol ei gymeradwyo cyn iddo gael ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

Cyflogaeth (Safonau 106 – 111)

Mae'r Brifysgol yn defnyddio system ar-lein ar gyfer ceisiadau swyddi a darperir y ffurflen gais ar-lein. Gellir defnyddio'r system yn Gymraeg ac mae'r ffurflen gais yn gofyn yn benodol am ddewis iaith yr ymgeisydd. Mae'r system hefyd yn caniatáu i ymgeiswyr ddewis eu hiaith o ran eu dewis iaith ar gyfer y cyfweliad/unrhyw ddull arall o asesu. Mae hefyd yn caniatáu i ymgeiswyr, os cânt eu penodi'n llwyddiannus, i ddewis a os ydynt am dderbyn y canlynol yn Gymraeg:

- Contract cyflogaeth
- Gohebiaeth bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth
- Dogfennau sy'n amlinellu eu hanghenion hyfforddiant

- Dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad
- Dogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi eu cynllun gyrfa.

Cofnodir yr iaith a ddewisir gan staff ar gyfer gohebiaeth ar y cofnod staff ar system hunanwasanaeth ESS, felly darperir yr holl ohebiaeth ynghylch cyflogaeth gan y Brifysgol yn dewis iaith yr aelod staff.

| Polisi Adnoddau Dynol (Safonau 112 – 118) |
|---|

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae pob un o'r dogfennau polisi a restrir o fewn y Safonau ar gael yn ddwyieithog. Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn y broses o sicrhau bod y ddogfen bolisi derfynol, yn benodol y Polisi Iechyd a Llesiant ar gael yn ddwyieithog.

| Cwynion gan/am staff (Safonau 119 – 122) |
|---|

Mae gan aelodau staff y Brifysgol yr hawl i wneud cwyn ffurfiol ac ymateb i gwynion drwy gyfrwng y Gymraeg.

| Disgyblu Staff (Safonau 123 – 126) |
|---|

Mae gan staff yr hawl i ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn proses ddisgyblu fewnol. Mae'r weithdrefn ddisgyblu yn nodi'r hawl hon a'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod disgyblu.

| Sgiliau Iaith Staff (Safonau 127 ac 134) |
|---|

Mae gan bob aelod o staff ddewis i ddefnyddio rhyngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar eu cyfrifiaduron, ac mae'r pecyn gramadeg a gwiriwr sillafu a’r geiriadur Cymraeg *Cysgliad/CySill* ar gael i'r holl staff ar bob cyfrifiadur Prifysgol. Mae hefyd ar gael i staff lanlwytho yn uniongyrchol i'w systemau personol.

Cesglir data am sgiliau iaith Gymraeg y staff wrth iddynt wneud cais am swydd gyda'r Brifysgol a chofnodir hyn ar gofnod y staff pan fyddant yn cael eu penodi. Gall staff presennol gwblhau neu ddiweddaru'r bocs sgiliau iaith ar eu cofnod staff drwy’r system hunanwasanaeth ESS.

| Hyfforddiant Staff (Safonau 135 – 137) |
|---|

Yn ystod y cyfnod adrodd, gofynnodd un aelod o staff am gael hyfforddiant datblygu staff drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hyfforddiant Iaith (Safonau 138 - 141)

Mae'r Brifysgol yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ac mae gan staff yr hawl i fynychu dosbarthiadau Cymraeg yn y Gweithle a hwylusir gan y tiwtor Cymraeg i Oedolion.

Yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol cofrestrodd 82 o ddysgwyr ar raglen Cymraeg yn y Gweithle’r Brifysgol, sy'n gynnydd o bron i 17% o'r flwyddyn flaenorol. Ar hyn o bryd, mae 66 o aelodau staff yn mynychu dosbarthiadau yn rheolaidd (gyda 16 wedi tynnu allan oherwydd nifer o resymau gan gynnwys llwyth gwaith, salwch tymor hir a gadael y Brifysgol).

**Crynodeb o’r rhaglen:**

| **Lefel astudio** | **Nifer y staff** |
|---|---|
| Mynediad 1 (Llandaf) | 13 |
| Mynediad 1 (Cyncoed) | 8 |
| Mynediad 2 (Llandaf) | 15 |
| Sylfaen 2 (Llandaf) | 11 |
| Canolradd 2 (Cyncoed/Llandaf) | 9 |
| Uwch (Llandaf) | 10 |
| **CYFANSWM** | **66** |

Llofnodion e-bost a bathodynnau (Safonau 142 – 144A)

Anogir staff i ddefnyddio llofnod electronig dwyieithog yn eu llofnodion e-bost i ddangos eu bod yn gallu siarad neu'n dysgu Cymraeg, neu'n croesawu e-bost yn Gymraeg.

Disgwylir i'r staff ddarparu neges ddwyieithog ar gyfer eu negeseuon ‘allan o’r swyddfa’. Mae canllawiau ar gael ar ein gwefan ar sut i wneud hyn.

Dosbarthwyd bathodynnau a laniardiau *Iaith Gwaith* a *Dysgwr* yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd.

Swyddi (Safonau 145 – 149)

Mae rheolwyr mewn Ysgolion ac Unedau yn gyfrifol am asesu swyddi unigol o ran gofynion y Gymraeg. Gwneir hyn drwy gwblhau'r ffurflen sefydlu.

Hysbysebir pob swydd yn ddwyieithog ac mae pob swydd yn nodi bod lefel benodol o Gymraeg yn sgìl Hanfodol neu Dymunol.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio system ar-lein ar gyfer ceisiadau swyddi a darperir y ffurflen gais ar-lein. Mae'r system hon yn gwbl ddwyieithog.

Arwyddion (Safonau 150 – 153)

Mae pob arwydd yn ymddangos yn ddwyieithog. Cynhyrchir unrhyw arwyddion newydd, neu'r rhai sy'n cael eu hadnewyddu gyda'r testun Cymraeg wedi'i leoli fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf – h.y. i'r chwith neu uwchben y testun Saesneg.

**Safonau Cadw Cofnodion**

Cwynion (Safonau 154 – 156)

Pwrpas Gweithdrefn Gwyno'r Brifysgol yw darparu llwybr ffurfiol y gall myfyriwr, aelod o staff neu'r cyhoedd, ddod â chŵyn i sylw'r Brifysgol drwyddo. Mae'r weithdrefn hon ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Cyflwynir adroddiad blynyddol ffurfiol ar gwynion yn flynyddol i'r Bwrdd Academaidd a Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data monitro gan gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi cwyno yn ystod y flwyddyn, nifer y cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg fel mater ac unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r broses fonitro.

Er mwyn cefnogi unrhyw un sy'n dymuno gwneud cwyn drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Pennaeth yr Uned Gymraeg wedi cael hyfforddiant ar sut i ymchwilio i gŵyn.

Derbyniodd y Brifysgol 2 gŵyn ynghylch Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Roedd y gŵyn gyntaf a dderbyniwyd yn ymwneud â gwefan y Brifysgol oherwydd nad oedd yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Esboniwyd pan wnaed y gŵyn nad oedd yn ofynnol i'r Brifysgol gael gwefan gwbl ddwyieithog ond mae'r

Brifysgol wrthi'n sicrhau fersiwn gwbl ddwyieithog o'i gwefan erbyn y dyddiad gosod.

Roedd yr ail gŵyn a dderbyniwyd yn ymwneud â gwall sillafu Cymraeg wedi ei arddangos ar un o arwyddion hyrwyddo'r Brifysgol. Unionwyd hyn ar unwaith.

Nid oedd y naill gŵyn na'r llall wedi'i chyflwyno drwy weithdrefn ffurfiol y Brifysgol. Gwnaed y cwynion yn uniongyrchol i Bennaeth yr Uned Gymraeg a datryswyd y ddau.

## Polisïau (Safon 157)

Defnyddiwyd yr offeryn ar gyfer asesu effaith ar yr iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, y Ffurflen Asesiad Effaith, 12 gwaith yn ystod y cyfnod adrodd.

## Sgiliau Ieithyddol Staff (Safon 158)

Mae'r Brifysgol wedi meincnodi'r ffordd y mae'n asesu sgiliau iaith Gymraeg ei staff yn erbyn mecanweithiau eraill a ddefnyddir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan y fframwaith hwn 5 lefel o allu yn seiliedig ar ddatganiadau 'gallu gwneud' sy'n unol â'r fframwaith Ewropeaidd cyffredin ar gyfer dysgu ieithoedd, sef fframwaith Cymraeg i Oedolion CBAC.

Anfonwyd arolwg at bob aelod o staff yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, gan ofyn i'r staff asesu eu gallu yn y Gymraeg yn erbyn y fframwaith newydd hwn a rhai cwestiynau ychwanegol am eu hawydd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i weithio a dysgu'r iaith. Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff roi'r wybodaeth hon i'r Brifysgol. Cwblhaodd cyfanswm o **816** o aelodau staff yr arolwg, bron i 60% o holl staff Met Caerdydd.

Y gallu i siarad Cymraeg

| **Ateb** | **%** | **Cyfanswm** | **Academaidd** | **Proffesiynol** | **Y ddau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gallu. | 62.99% | 514 | 163 | 316 | 35 |
| Gallaf gynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg. | 23.28% | 190 | 54 | 119 | 17 |
| Gallaf gynnal sgyrsiau syml yn ymwneud â gwaith. | 2.33% | 19 | 7 | 12 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gallaf sgwrsio mewn rhai sgyrsiau sy'n gysylltiedig â gwaith. | 1.96% | 16 | 4 | 12 | 0 |
| Gallaf sgwrsio yn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n gysylltiedig â gwaith. | 2.45% | 20 | 5 | 15 | 0 |
| Yr wyf yn rhugl. | 6.99% | 57 | 31 | 22 | 4 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **816** | **264** | **496** | **56** |

## Y gallu i ddeall Cymraeg

| **Ateb** | **%** | **Cyfanswm** | **Academaidd** | **Proffesiynol** | **Y ddau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gallu. | 44.49% | 363 | 127 | 214 | 22 |
| Gallaf ddeall rhannau o sgwrs sylfaenol. | 30.76% | 251 | 67 | 161 | 23 |
| Gallaf ddeall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd. | 12.01% | 98 | 25 | 66 | 7 |
| Gallaf ddeall sgyrsiau arferol sy'n gysylltiedig â gwaith. | 2.82% | 23 | 7 | 16 | 0 |
| Gallaf ddeall y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n gysylltiedig â gwaith. | 1.84% | 15 | 5 | 10 | 0 |
| Gallaf ddeall pob sgwrs sy'n gysylltiedig â gwaith. | 8.09% | 66 | 33 | 29 | 4 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **816** | **264** | **496** | **56** |

## Y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg

| **Ateb** | **%** | **Cyfanswm** | **Academaidd** | **Proffesiynol** | **Y ddau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gallu. | 66.54% | 543 | 175 | 330 | 38 |
| Gallaf ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd. | 20.47% | 167 | 44 | 109 | 14 |
| Gallaf baratoi gohebiaeth syml yn ymwneud â gwaith. | 3.92% | 32 | 10 | 21 | 1 |
| Gyda gwiriad, gallaf baratoi deunydd rheolaidd sy'n gysylltiedig â gwaith. | 2.45% | 20 | 7 | 12 | 1 |
| Gallaf baratoi'r rhan fwyaf o waith ysgrifenedig yn Gymraeg. | 2.21% | 18 | 7 | 10 | 1 |
| Gallaf baratoi deunydd ysgrifenedig ar gyfer yr holl faterion sy’n gysylltiedig â gwaith. | 4.41% | 36 | 21 | 14 | 1 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **816** | **264** | **496** | **56** |

**Y gallu i ddarllen Cymraeg**

| **Ateb** | **%** | **Cyfanswm** | **Academaidd** | **Proffesiynol** | **Y ddau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gallu. | 43.50% | 355 | 126 | 209 | 20 |
| Gallaf ddarllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol gyda dealltwriaeth. | 32.35% | 264 | 72 | 169 | 23 |
| Gallaf ddarllen deunydd syml ar bynciau bob dydd gyda dealltwriaeth. | 10.05% | 82 | 18 | 56 | 8 |
| Gallaf ddarllen rhywfaint o ddeunydd arferol sy'n gysylltiedig â gwaith gyda chymorth e.e. geiriadur. | 4.41% | 36 | 10 | 25 | 1 |
| Gallaf ddarllen y rhan fwyaf o ddeunydd sy'n gysylltiedig â gwaith. | 3.19% | 26 | 9 | 15 | 2 |
| Gallaf ddeall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â gwaith yn llawn. | 6.50% | 53 | 29 | 22 | 2 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **816** | **264** | **496** | **56** |

Hyfforddiant Staff (Safon 159)

Mae’r Uned Gymraeg yn cynnig pecyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob aelod o staff. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg, y rhesymau pam fod pobl yn siarad Cymraeg a hefyd pam eu bod yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys

data ar faint o staff a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru, Caerdydd, a Met Caerdydd ynghyd â'r gofynion ar gyfer y Met fel sefydliad.

| Swyddi (Safonau 161 - 162) |
|---|

Yn ystod y cyfnod adrodd, hysbysebwyd 263 o swyddi, o'r rhain:

- Hysbysebwyd 12 swydd lle'r oedd sgiliau iaith Gymraeg yn Hanfodol.
- Hysbysebwyd 157 o swyddi lle'r oedd sgiliau iaith Gymraeg yn Ddymunol.
- Hysbysebwyd 94 o swyddi lle barnwyd nad oedd angen sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd.

Noder bod y ffigurau hyn hefyd yn cynnwys swyddi a ail-hysbysebwyd.

**<u>Safonau Atodol</u>**

| Dogfen Safonau'r Gymraeg (Safonau 163, 169, 175, 181) |
|---|

Mae'r Uned Gymraeg yn y broses o ddrafftio dogfen bolisi yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn Met Caerdydd. Bydd y polisi'n cael ei graffu cyn i'r pwyllgorau priodol ei gymeradwyo cyn cael ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

| Gweithdrefn Gwyno (Safonau 164, 170, 176) |
|---|

Gall cwynion a dderbynnir gan y sefydliad ynghylch cydymffurfio â'r Safonau a chwynion ynglŷn â'r Gymraeg gael eu gwneud drwy Weithdrefn Gwyno'r Brifysgol sydd ar gael ar ein gwefan. Gellir gwneud cwynion drwy ddefnyddio'r ffurflen electronig ryngweithiol ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Brifysgol drwy e-bost, llythyr neu dros y ffôn. Cyfeirir at y weithdrefn gwyno, gan gynnwys proses y Comisiynydd o ymdrin â chwynion, yn yr hyfforddiant ar y Safonau i staff.

| Monitro (Safonau 165, 171, 177) |
|---|

Mae'r Swyddog Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ynghyd â Phennaeth yr Uned Gymraeg yn gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Dirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol ar Ymgysylltu â Myfyrwyr sy'n gyfrifol am oruchwylio gwasanaethau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd Safonau'r Gymraeg. Mae'n bwyllgor uwch reoli, ac mae'n cyfarfod deirgwaith yn ystod y flwyddyn academaidd, ac yn derbyn adroddiadau gan yr Uned Gymraeg ar weithredu a monitro Safonau'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.  Mae'r Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg

hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Bwyllgor Cynllunio Strategol y Brifysgol ac i Fwrdd y Llywodraethwyr.

Mae'r ddogfen *Safonau'r Gymraeg: Prifysgol Metropolitan Caerdydd* yn esbonio'r trefniadau ar gyfer goruchwylio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael ei drafftio ar hyn o bryd gan yr Uned Gymraeg. Mae canllawiau ar gyrraedd y Safonau ar gael ar ein gwefan ar gyfer yr holl staff.

| Adroddiad Blynyddol (Safonau 166, 168, 172, 178, 180, 182) |
|---|

Ar gyfer yr adroddiad hwn, gofynnwyd i'r Brifysgol adrodd ar y cyfnod rhwng 1 Awst 2018 i 31 Gorffennaf 2019. Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- nifer y cwynion a dderbyniwyd
- nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg
- nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd yn Gymraeg
- nifer y swyddi newydd a gwag a'u categori ynglŷn â gofynion yr iaith Gymraeg.

| Dogfen Cydymffurfio (Safonau 167, 173, 178, 179) |
|---|

Caiff canllawiau a phwyntiau gweithredu eu cynhyrchu'n uniongyrchol o ganlyniad i'r broses fonitro fewnol sy'n cael ei goruchwylio a'i harchwilio gan y Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg a'r Bwrdd Rheoli.